Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

# Canlyniadau Holiaduron Rhieni / Gwarchodwyr – Haf 2019

| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Heb gytuno neu anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae fy mhlentyn yn mwynhau dod i'r ysgol. | 70% | 26% | 3% | 1% | |
| Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. | 78% | 21% | 1% | | |
| Mae'r ysgol yn deall ac yn ymateb i anghenion fy mhlentyn. | 70% | 28% | 2% | | 1% |
| Mae fy mhlentyn yn cael ei addysgu yn dda yn yr ysgol. | 73% | 27% | | | |
| Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. | 68% | 30% | 2% | | |
| Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i weithio yn ddyfal ac i roi o'i orau glas yn yr ysgol. | 75% | 24% | 1% | | |
| Mae fy mhlentyn yn derbyn nifer addas o ddarnau gwaith cartref am ei oedran. | 45% | 26% | 17% | 10% | 2% |
| Mae fy mhlentyn yn mwynhau ystod symbylol o weithgareddau trawsgwricwlaidd. | 53% | 33% | 12% | 2% | |
| Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn effeithiol am faterion yn ymwneud â chynnydd fy mhlentyn. | 55% | 40% | 2% | 2% | |
| Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn effeithiol ar sut i gefnogi addysg fy mhlentyn. | 51% | 39% | 8% | 1% | |
| Mae'r ysgol yn cyfathrebu yn effeithiol am ddigwyddiadau a gweithgareddau yr ysgol. | 67% | 31% | 1% | 1% | |
| Mae'r ysgol yn awyddus i glywed fy marn ac yn gwrando ar fy mhryderon. | 54% | 37% | 6% | 2% | 1% |
| Mae safonau uchel o ymddygiad yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin. | 57% | 40% | 2% | | |
| Mae'r ysgol yn ymdrin ag unrhyw faterion o fwlian yn effeithiol. (gadewch yn wag os nad yw'r cwestiwn yn berthnasol i chi) | 49% | 29% | 23% | | |
| Mae'r ysgol yn groesawgar ac yn cynnig cyfleoedd i rieni ymglymu mewn agweddau o fywyd ysgol. | 69% | 30% | 1% | | |
| Mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli yn dda. | 76% | 23% | 1% | | |
| Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i fyw bywyd iach. | 63% | 37% | | | |
| Mae fy mhlentyn yn cymdeithasu yn dda gyda phlant o gefndiroedd gwahanol. | 66% | 32% | 2% | | |
| Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i wneud cyfraniad positif yn y gymuned. | 58% | 29% | 12% | | |
| Byddwn yn argymell Ysgol Gymraeg Pontybrenin i eraill. | 82% | 16% | 2% | | |

***i'r canran agosaf**

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

Diolch i bawb a ymatebodd i holiadur tymor yr haf. Er mwyn i'r ysgol barhau i wella, mae angen i holl aelodau cymuned yr ysgol rannu eu barn am yr hyn rydym yn ei wneud yn dda, ac efallai'n bwysicach fyth, pa feysydd y mae angen i ni eu gwella wrth symud ymlaen. Derbynion ni 127 o holiaduron wedi'u cwblhau eleni, sydd ychydig yn llai na llynedd. Os na lwyddoch chi gwblhau un y tro hwn, gofynnir yn garedig i chi gymryd ychydig o funudau i gwblhau holiaduron y dyfodol a anfonir atoch bob tymor, yn gofyn am eich barn am amrywiaeth o faterion.
Yn ogystal â'r holiadur tymhorol, mae cyfle hefyd i rannu eich barn fel rhan o fforwm rieni tymhorol yr ysgol. Caiff manylion pellach am y fforymau hyn, a sut allwch chi gyfrannu atyn nhw, eu rhannu gyda chi ym mis Medi.

Unwaith eto eleni, ymfalchïwn yng nghanlyniadau yr holiaduron. Dyma i chi grynodeb o rai o'r prif ganfyddiadau:

## Meysydd Llwyddiant (y sgoriau uchaf)

- **Mae fy mhlentyn yn cael ei addysgu'n dda yn yr ysgol**
  Rydym wrth ein bodd bod 100% ohonoch chi wedi nodi bod eich plentyn yn cael ei addysgu'n dda yn yr ysgol. Rydym yn ffodus iawn yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin i gael staff dysgu ac addysgu arbennig sy'n teimlo'n angerddol am addysgu a chefnogi eich plant, ac rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni'n datblygu plant dwyieithog sydd â'r sgiliau angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd.

- **Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i fyw bywyd iach.**
  Gyda iechyd yn chwarae rhan allweddol yn sicrhau bod ein plant yn datblygu i'w llawn potensial, mae'r ffaith bod 100% o ymatebwyr yn cytuno gyda'r datganiad hwn yn hyfryd. Gyda dewisiadau ffordd o fyw presennol yn gwneud hi'n anodd i lawer o ddisgyblion gynnal arferion iach, mae rôl yr ysgol yn annog ein disgyblion i fyw bywyd iach yn bwysicach nag erioed. Bydd hyn yn parhau ym mis Medi, trwy ddarpariaeth y cwricwlwm newydd yn ogystal â thrwy cyfleoedd trawsgwricwlaidd amrywiol.

- **Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.**
  Diogelwch ein disgyblion tra eu bod nhw ar safle'r ysgol yw un o'n prif blaenoriaethau ni, a braf yw gweld bod 99% ohonoch chi yn cytuno gyda'r datganiad hwn. Fodd bynnag, dydy'r ysgol ddim yn cymryd diogelwch ein disgyblion yn ganiataol, a byddwn yn parhau i gydweithio gyda'r awdurdod lleol, y gymuned ehangach a holl aelodau teulu YGG Pontybrenin i sicrhau bod hyn yn parhau.

- **Mae'r ysgol yn groesawgar ac yn cynnig cyfleoedd i rieni ymglymu mewn agweddau o fywyd ysgol**
  Clywir y term 'polisi drws agored' yn aml yng nghyd-destun ysgolion, ond teimlwn yn gryf fod hyn yn wir yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin, gyda'r ysgol yn croesawu rhieni ac aelodau eraill o 'deulu YGG Pontybrenin', tra'n eu hannog nhw i rannu eu syniadau a'u profiadau gyda ni.  Cytunodd 99% ohonoch chi fod hyn yn gryfder.

**<u>Meysydd i'w datblygu (y meysydd sgoriodd isaf)</u>**

- **Mae fy mhlentyn yn derbyn nifer addas o ddarnau gwaith cartref am ei oedran.**
  Gyda'r arfer o ddosbarthu gwaith cartref ffurfiol wedi dirwyn i ben eleni, ni ddylid fod wedi cynnwys y cwestiwn hwn yn yr holiadur. Ymddiheuriaf am hynny! Serch hynny, mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn profi ei fod yn parhau yn bwnc llosg. Gyda 71% o rieni yn ymateb yn bositif i'r cwestiwn hwn, rhaid tybio eu bod nhw'n hapus gyda'r trefniadau presennol. Ar y llaw arall, rwy'n siwr y byddai'r 12% wnaeth anghytuno gyda'r datganiad hwn, o'r farn y dylwn ailgyflwyno gwaith cartref. Ar hyn o bryd does dim cynlluniau ar y gweill i newid y trefniadau presennol, er y byddwn yn parhau i ddarparu trosolygon rheolaidd o'r gwaith sy'n cael ei gyflwyno yn y dosbarth i'r rhieni hynny sydd am gefnogi eu plant adref. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa gan newid y drefn petai angen.

- **Mae'r ysgol yn awyddus i glywed fy marn ac yn gwrando ar fy mhryderon.**
  Er bod 91% o rieni yn teimlo bod yr ysgol yn ceisio eu barn ac yn gwrando ar eu pryderon, mae 3% ohonoch yn teimlo nad yw hyn yn wir. Yn ogystal â'n polisi drws agored, sy'n rhoi i rieni fynediad agored i staff yn ystod y dydd, rydym hefyd yn ceisio eich barn ac yn ymateb iddi gyda holiaduron tymhorol a chyfarfodydd tymhorol y fforwm rhieni. Yn y cyfarfodydd hyn mae cynrychiolwyr dosbarthiadau yn cwrdd ag athrawon dosbarth a'r pennaeth i drafod testunau neu bryderon sydd wedi codi. Lle bynnag y bo modd, rydym yn gwneud pob ymdrech i ateb y cwestiynau hynny neu ymateb i bryderon. Petai gan unrhyw riant fater sy'n peri pryder ac angen mynd i'r afael ag ef, dylid cysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosib.

- **Mae fy mhlentyn yn mwynhau ystod symbylol o weithgareddau trawsgwricwlaidd.**
  Er bod y gweithgareddau allgyrsiol a gynigiwyd i ddisgyblion yn fwy amrywiol nag erioed, roedd 2% ohonoch yn anghytuno â'r datganiad uchod. Mae staff yr ysgol wedi rhoi o'u hamser yn wirfoddol i gynnal 19 clwb allgyrsiol eleni.

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe, SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost / E-Mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan / Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

Mae'r clybiau amrywiol hyn wedi bod yn agored i ddisgyblion o flwyddyn 1 i flwyddyn 6 ac wedi rhoi cyfleoedd i gyfranogwyr ddatblygu llu o sgiliau newydd. Yn ogystal â'r clybiau allgyrsiol, mae nifer o gyfleoedd eraill wedi codi dros y flwyddyn, megis yr Eisteddfod, lle mae disgyblion wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau diwylliannol amrywiol yn ogystal ag ystod o gystadlaethau a gwyliau chwaraeon.

- **Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â mi ynghylch cynnydd fy mhlentyn**
  Er bod 95% ohonoch chi o'r farn bod yr ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â chi ynghylch cynnydd eich plentyn, mae 2% yn teimlo bod angen gwneud mwy yn y maes hwn. Yn ogystal â'r nosweithiau rhieni tymhorol, derbyniodd rhieni wahoddiad ddwywaith eleni i weld gwaith eu plant ac i rannu yn eu llwyddiannau yn ystod ein diwrnodau 'Dathlu fy Ngwaith / Sgiliau'.
  Tra bod yr adroddiadau diwedd blwyddyn yn cynnig crynodeb o gynnydd a chyrhaeddiad ym mhob agwedd o'r cwricwlwm, mae rhieni hefyd yn derbyn adroddiad interim ym mis Chwefror / Mawrth sydd yn amlinellu targedau a chynnydd disgyblion.

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon rydych chi wedi eu codi yn yr holiaduron hyn, a mawr obeithiaf y byddwch yn sylwi ar fwy o welliannau i'r ysgol yn y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, os rydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau i'w gwneud, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach. Er ein bod yn ymdrechu i fod y gorau y gallwn fod, nid ydym yn berffaith, ond gyda'ch cefnogaeth a'ch mewnbwn parhaus, gallwn barhau i ddatblygu'r ysgol gyda'n gilydd.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Yn ddiffuant,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth